


Datganiad i'r Wasg STREAM Gorffennaf 2023



Yn ddiweddar, cynhaliwyd cynhadledd yn canolbwyntio ar fonitro newid hinsawdd ar gyfer cymunedau arfordirol lleol gan y prosiect STREAM (Technolegau Synhwyrdd ar gyfer Monitro Amgylcheddol Dyfrol o Bell) yn Waterford.

Ariennir STREAM yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Raglen Gydweithredu Iwerddon Cymru gyda €4.3 miliwn dros bum mlynedd. Nod STREAM yw asesu effeithiau newid hinsawdd i sefydlu cynlluniau rheoli lleol a sicrhau dyfodol cynaliadwy i ranbarthau arfordirol.

Agwedd allweddol ar gyflawniadau STREAM yw profi synwryddion ansawdd dŵr prototeip a ddatblygwyd gan Brifysgol Dechnolegol y De-ddwyrain (SETU), Prifysgol Dechnolegol Munster (MTU), a Phrifysgol Abertawe (UM). Mae rhai o'r synwryddion newydd hyn yn cynnwys synwryddion printiedig 2D blaengar o Ganolfan Argraffu a Chaenu Cymru (WCPC). Mae SETU wedi dylunio offeryn arloesol, cost-effeithiol i ganfod maetholion mewn cyrff dŵr, sy'n hanfodol wrth asesu iechyd ecolegol, megis adeiladu systemau cludadwy gyda sbectromedrau UV optegol i drosglwyddo data ansawdd dŵr amser real i derfynell ar gyfer dadansoddi a gweithredu cyflym. . Yn ogystal, mae ymdrechion parhaus SETU ac MTU yn cynnwys datblygu methodolegau ar gyfer canfod bio-tocsinau morol a all effeithio ar werthiant pysgod cregyn.

Mae STREAM wedi defnyddio synwryddion masnachol a gorsafoedd tywydd mewn lleoliadau strategol fel Waterford, Dunmore East, Dungarvan, Tramore, a Faha. Mae Cyngor Sir Wexford wedi cefnogi'r prosiect yn frwd drwy helpu i sefydlu synwryddion o amgylch yr arfordir. Mae STREAM hefyd wedi datblygu porth ar-lein (marinestream.eu) sy'n galluogi mynediad cyhoeddus at ddata a gasglwyd, gan hyrwyddo ymgysylltiad â chymunedau arfordirol, ymchwilwyr, a chyrrff llywodraethol. Nod yr ymchwil rhyngdisgyblaethol a rhannu gwybodaeth hwn yw cryfhau galluedd addasu a lliniaru yn Iwerddon a Chymru tra'n cynyddu gwybodaeth am newid hinsawdd.

Mae'r prosiect a arweinir gan Dr Joe O'Mahony o Brifysgol Dechnolegol y De-ddwyrain (SETU) yn dod â grŵp amrywiol a chyflenwol o arbenigwyr ynghyd sy'n cynnwys ffisegwyr, peirianwyr electronig, rhaglenwyr, cemegwyr, biolegwyr, swyddogion cyllid, a phersonél gweinyddol o SETU, MTU, Prifysgol Abertawe, Canolfan Argraffu a Chaenu Cymru (WCPC), a'r Ganolfan Ymchwil Dyfrol Gynaliadwy (CSAR).

Mae pryder sylweddol ynghylch gwresogi byd-eang, ei natur anrhagweladwy, ac effeithiau anffafriol. Yn ôl Dr Ronan Browne, rheolwr prosiect ac ymchwilydd STREAM, ar yr un pryd, "mae angen mesur ac asesu hyn yn ofalus er mwyn rhoi strategaethau cynllunio ac addasu priodol ar waith; mae angen i ni gyd gymryd cyfrifoldeb ar y cyd, gweithredu a lleihau ein ôl troed carbon ac osgoi ychwanegu llygyrddion ychwanegol at ein dyfroedd."

Mae tîm ymroddedig STREAM wedi ymrwmo i ddiogelu'r amgylchedd a helpu cymunedau arfordirol o amgylch Môr Iwerddon i addasu i newid yn yr hinsawdd trwy dechnoleg flaengar a chydweithio rhyngdisgyblaethol.

